BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL CAERDYDD A'R FRO
CARDIFF & VALE REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

HWB CYDLYNU ARLOESI RHANBARTHOL CAERDYDD A BRO MORGANNWG
CARDIFF AND VALE REGIONAL INNOVATION CO-ORDINATION HUB

# Bwyd y Fro

Hyrwyddo bwyd cynaliadwy gyda hunaniaeth leol

**Dechreuodd Bwyd** y Fro yn 2020 ac mae bellach wedi sicrhau cyllid gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ar gyfer prosiect pum mlynedd, a ddyfarnwyd ym mis Gorffennaf 2022. Mae Bwyd y Fro yn un o nifer o bartneriaethau bwyd sy'n lledaenu ledled Cymru, sy'n anelu at weithredu'n gynaliadwy a bod yn eiddo i'r gymuned. Cefnogir y partneriaethau gan Soil Association, Sustain a Food Matters. Bydd Bwyd y Fro yn sefydlu rhwydwaith o gyflenwi lleol ar draws y Fro, trwy ledaenu partneriaethau bwyd.

**Y nod** yw creu hyb bwyd hunangynhaliol sy'n cael ei yrru gan y gymuned sy'n edrych ar: fynd i'r afael â thlodi bwyd, cefnogi bwyd lleol, dim gwastraff, mynediad at fwyd a bwyd ffres a maethlon. Yn greiddiol i hyn mae sicrhau mai'r dewis iach yw'r dewis hawdd, tra'n dathlu bwyd wedi'i dyfu'n lleol, sicrhau bod cynnyrch ar gael yn dymhorol a chreu lle i drigolion ddatblygu'r hyder a'r sgiliau i goginio pryd cytbwys. Mae Prosiect Bwyd Llanilltud Fawr yn gweithio ar achosion sylfaenol anghydraddoldebau iechyd ac wedi sefydlu hyb 'Mwy na Bwyd', yng Nghanolfan Gymunedol CF61, gyda'r bwriad ei fod yn hygyrch i gynifer o bobl â phosibl.

**Mae'r Hyb**, a lansiwyd ym mis Hydref 2022, yn gweithredu ochr yn ochr â'r pantri bwyd presennol sy'n cael ei redeg gan Wasanaethau Gwirfoddol Morgannwg a 'Chatty Café' rheolaidd sy'n cael ei redeg gan More In Common Llanilltud Fawr. Mae nifer o sefydliadau yn cymryd rhan i gynyddu gwerth i bobl leol: Cymdeithas Tai Hafod, Age Connects, Cyngor ar Bopeth, Benthyg (benthyciadau offer coginio), Gofal a Thrwsio a thîm Byw'n Iach y Fro, gyda mwy yn debygol o ymuno yn y dyfodol. Bwriedir i ymweliadau â'r hyb fod yn brofiad urddasol heb stigmateiddio'r broses o gael mynediad at gymorth, gan greu amgylchedd cyfforddus sy'n grymuso pobl i gynnal eu hunain.

**Ymgymerwyd ag** ymchwil sylweddol ynghyd ag ymgysylltu â'r gymuned i sicrhau bod y dyluniad a'r dulliau cyflwyno yn gywir, gyda grwpiau ffocws, a thrwy ymgysylltu ag ysgolion lleol i ddeall safbwyntiau disgyblion ar fwyd, a chyfweliadau â'r gwasanaethau gwybodus iawn sydd eisoes yn gweithio yn y maes hwn.

FOOD Vale BWYD y Fro

**Mae'r model** a'r ddarpariaeth yn cael eu mireinio mewn ymateb i brofiadau'r rhai dan sylw i wella hygyrchedd, y cymorth a gynigir a chynyddu gwerth i'r gymuned leol.

**Mae arddangosiadau** coginio yn rhan o'r model, gan weithio gyda'r cynhwysion sydd ar gael o'r pantri, yn ogystal â chyflwyno cwrs Get Cooking mewn cydweithrediad â Deieteg y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn cydnabod bod angen darparu bwyd da ar y cyd â datblygu'r sgiliau a'r hyder i'w ddefnyddio. Mae Bwyd y Fro hefyd yn cefnogi prosiectau tyfu bwyd lleol sy'n cynnal sesiynau gwirfoddol yn y gymuned ac yn chwarae rhan hanfodol wrth godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â bwyd.

**Fiona Kinghorn**, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro:

“Mae'n wych gweld y gwaith caled gan yr holl bartneriaid y tu ôl i'r prosiect hwn yn cael ei roi ar waith. Mae mor bwysig bod gan bawb fynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt, yn enwedig o ran mynediad at fwyd fforddiadwy a maethlon, ac yn enwedig yn ystod y cyfnod heriol hwn." s"

Dywedodd y Cynghorydd **Eddie Williams**, Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd:

“Rwy'n falch ein bod yn gallu datblygu gwasanaethau y mae mawr eu hangen megis Hyb Mwy na Bwyd Llanilltud Fawr. Mynediad at fwyd fforddiadwy, iach a maethlon yw un o'r egwyddorion craidd sy'n sail i waith Bwyd y Fro.

“Mae'r argyfwng costau byw ar hyn o bryd yn effeithio ar lawer o deuluoedd ac unigolion ledled y Fro ac mae yna rai grwpiau a sefydliadau gwych sy'n gweithio'n galed i leddfu'r straen sy'n gysylltiedig ag ef.”



**Bydd Prosiect** Bwyd Llanilltud Fawr yn gweithredu fel esiampl er mwyn ei ehangu i rannau eraill o'r Fro, wedi'i lywio gan brofiadau Llanilltud Fawr tra'n addasu i anghenion a sefyllfaoedd ardaloedd eraill.

**Dod ag** amrywiaeth o wasanaethau at ei gilydd i gynnig ystod eang o gymorth i gynyddu effaith a gwerth i'r gymuned leol. Mae hyn wedi bod yn ganolog i lwyddiant Prosiect Bwyd Llanilltud Fawr, sy'n enghraifft wych o ledaeniad a graddfa yn mabwysiadu syniad a'i addasu i fod yn llwyddiannus yn lleol.